

Cydymdeimlad, Cofion a Llongyfarchion

Ychydig ddyddiau wedi i'r rhifyn diwethaf o Llais Bro Aled gael ei gyhoeddi, fe ddaeth y newydd trist am farwolaeth Mr David T. Jones (Henllan), un a gyfrannodd cymaint yn ei gymuned leol a thrwy ei wasanaeth gwirfoddol yn Ysbyty Glan Clwyd. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r plant, ei chwaer – Barbara Williams (Henllan), a gweddi y teulu yn eu profedigaeth.

Anfonwn ein cofion at Edna Evans (Llanfair) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd. Yr ydym yn ei chofio ac yn ei hamgylchynu yn ein gweddiâu ac yn hyderu y bydd yn teimlo'n well yn fuan. Yn yr un modd, cofiwn am eraill o'n plith sydd wedi derbyn llawdriniaeth neu driniaethau eraill yn ddiweddar. Hyderwn y byddant hwythau'n cael eu gwarchod a'u cynnal wrth iddynt gryfhau dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf hyn.

Llongyfarchiadau i Gwion Evans (Llansannan) ac Elain ar enedigaeth mab, Enoc Lloyd, brawd bach i Cati. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig yma eto, a chyflwynwn y teulu i'w ofal.

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma.

Cymorth Cristnogol – cyfle i ddiolch am y brechlyn

Gair i'ch atgoffa bod yr wythnos Mai 10^{fed} – 16^{eg} yn Wythnos Cymorth Cristnogol ac y byddai unrhyw gyfraniad yn cael ei werthfawrogi tuag at eu gwaith yng nghymunedau tlotaf a mwyaf bregus ein byd, yn arbennig felly lle mai ychydig o obaith sydd am raglen brechu fel sydd gennym yn y wlad hon. (Gweler y rhifyn diwethaf o Llais Bro Aled am fwy o wybodaeth.)

Rydym yn ymwybodol bod rhai o'n heglwysi â'u trefniadau eu hunain, ond os oes eraill ohonoch yn dymuno cyfrannu tuag at waith Cymorth Cristnogol, gallwch wneud hynny ar-lein trwy'r wefan: <https://www.christianaid.org.uk/give/ways-donate/give-thanks-your-coronavirus-vaccine> neu gallwch anfon siec i Mair (cyn diwedd Mai, os gwelwch yn dda) yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled' (gyda Cymorth Cristnogol wedi ei ysgrifennu ar y cefn), ac fe wnawn ninnau dalu'r arian dros y we ar eich rhan. Diolch am eich cefnogaeth.

- Gofynnir yn garedig i **aelodau Capel Saron** roi eu cyfraniadau tuag at Gymorth Cristnogol i Emyr Rees, os gwelwch yn dda.
- Gofynnir yn garedig i **aelodau Capel Henllan** roi eu cyfraniadau tuag at Gymorth Cristnogol i Rhian Evans neu Hafwen Roberts, os gwelwch yn dda.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (19^{eg}), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled



Dydd Sul, 9 Mai 2021

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Yr wythnos hon, cefais gyfle i ymuno gydag Undeb Gristnogol Myfyrwyr Prifysgol Bangor a hwythau ar fin dechrau eu harholiadau diwedd tymor. Dwi'n siŵr fod y gair arholiadau yn ddigon i wneud i rai ohonom droi'n chwys oer! A hyd yn oed os nad yw hynny'n wir, gallwn uniaethu â'r tensiwn a'r ofn sy'n gallu dal gafael ynom pan mae yna ddigwyddiad pwysig o'n blaenau. Sut aiff pethau? Beth fydd yn digwydd i mi os gwna i lanast? Dyma rai o'r cwestiynau sy'n aml yn troi a throsi yn ein meddyliau.

Fear of failure yw'r term Saesneg am nifer o'r amheuan hyn, a gall ychydig o'r ofn naturiol yma fod yn iach wrth iddo'n sbarduno i baratoi a'n gwarchod rhag bod yn esgeulus cyn prawf neu dasg bwysig. Ond gwyddom hefyd bod ofnau o'r fath yn hawdd iawn yn medru troi'n afresymol a thafalu cysgod diflas dros bob agwedd o'n bywydau.

Pam ydym ni'n ymateb fel hyn? Gan amlaf oherwydd ein bod yn credu bod llwyddiant (sut bynnag yr ydym yn mesur hynny) yn ein gwneud yn werthfawr. Ac oherwydd hynny, bydd unrhyw fethiant yn ein golwg yn gwneud i ni deimlo nad ydym mor werthfawr, sydd wedyn yn datblygu'n ofn y byddwn mewn rhyw ffordd yn cael ein gwrthod.

Ond mae hyn yn gwbl groes i'r ffordd mae'r Arglwydd Dduw yn gweithredu. Trwy hanes, mae Duw wedi gwneud yr annisgwyl er mwyn dangos Ei gariad a'i ras tuag at bobl annheilwng. Dyma'r neges i Israel yn Deuteronomium 7: 7-8, "Wnaeth e ddim eich dewis chi am fod mwy ohonoch chi na'r bobloedd eraill i gyd – roedd llai ohonoch chi os rhywbeth! Na, dewisodd yr ARGLWYDD chi am ei fod wedi'ch caru chi, ac am gadw'r addewid wnaeth e i'ch hynafiaid chi."

Ac mae'r un egwyddor yn sylfaenol i ffydd y Cristion – nid ar sail ein perfformiad y mae Duw wedi'n hachub a'n derbyn, ond er gwaethaf hynny! Mae bendithion Duw yn dod i'r Cristion fel rhodd yn Iesu Grist, a thrwy ffydd, cawn ddod yn blant Duw. (Effesiaid 1:5)

Nid dim ond pan maent yn llwyddo mae plant yn werthfawr yng ngolwg eu rhieni. Ac mae'r un peth yn wir i'r Cristion. Oherwydd bod ein mabwysiad fel plant Duw ar sail bywyd perffaith a marwolaeth Iesu, nid yw ein methiant yn golygu ein bod yn llai gwerthfawr, na bod Duw am droi ei gefn arnom. Oherwydd y diogelwch hyfryd hwn yn Iesu Grist, gall y Cristion wynebu unrhyw fethiant yn adeiladol, gan gydnabod ein gwendid a'n pechod wrth droi at Waredwr sy'n maddau, ac Ysbryd fydd yn ein nerthu i wynebu'r treialon a'r temtasiynau ddaw i'n rhan.

Rhodri

Dychwelyd i'r Capel

Bu'n gyfnod hir ers i ni yn yr Ofalaeth addoli mewn adeilad, ond diolch ein bod wedi gallu parhau i addoli mewn amrywiol ffyrdd eraill dros y cyfnod heriol ac anarferol hwn. Dwi'n siŵr y caredm ddiolch yn ddiffuant iawn i'n gweinidog am baratoi oedfa ar ein cyfer ar y we yn wythnosol ers cychwyn y cyfnod clo – diolch o galon Rhodri.

Credwn, yn y sefyllfa sydd ohoni, mai yn araf mae dychwelyd yn ôl i ddefnyddio ein hadeiladau, a bod yr angen i wneud hynny mewn ffordd ddiogel yn holl bwysig. Cyn defnyddio unrhyw adeilad o'n heiddo, rhaid wrth gwrs i ymddriedolwyr yr eglwys leol fod wedi paratoi asesiad risg, ac wedi i'r asesiad dderbyn cymeradwyaeth ein gweinidog, mae angen ei gyflwyno i'r Henaduriaeth. Wedi hynny, er mwyn sicrhau diogelwch pawb sy'n mynychu, rhaid i bob eglwys reoli'r risg trwy ddilyn y canllawiau'n fanwl.

Felly, **ar Mai 23ain am 6:00 yr hwyr**, ein bwriad yw ail-ddechrau addoli mewn adeilad trwy ddefnyddio'r capel yn Llansannan (gan bod mwy o le i ni allu cadw'r pellter angenrheidiol a hefyd oherwydd bod modd darlledu'r oedfa'n fyw ar y we oddi yno) ar gyfer cynnal Oedfa'r Fro. Gobeithio wedyn, wrth i ni i gyd ddechrau ymgynffwrdd hefo'r drefn, y gallwn ddechrau cynnal oedfaon mewn capeli eraill (os mai dyna fydd dymuniad yr eglwys leol ac os bydd y pregethwyr gwadd yn teimlo'n gyfforddus i wneud hynny) gan ddilyn canllawiau COVID. Bydd cael yr oedfa am 6:00 yr hwyr yn ein galluogi i gynnal oedfaon yn y bore yn y capeli eraill (pan fydd dymuniad i wneud hynny) heb amharu'n ormodol ar unrhyw drefniadau eraill fydd mewn lle.

Gwelwch felly yr wybodaeth gyferbyn â dydd Sul, Mai 23ain am y drefn i'w dilyn, os gwelwch yn dda. Edrychwn ymlaen i gael eich cwmni unwaith eto.

Cyhoeddiadau'r Fro

(Cofiwch, os nad yw'n bosib i chi ymuno â'r oedfaon ar fore Sul, mae modd i chi wrando unrhyw bryd wedi i'r darllediad ddod i ben. Mae'r holl oedfaon sydd wedi eu darlledu i'w cael trwy glicio ar y llun 'Gwe-ddarllediadau Bro Aled' ar dudalen flaen gwefan yr ofalaeth [eglwysibroaled.com]).

Sul – 9^{fed}

- **Ysgol Sul ar-lein**
Cynhelir Ysgol Sul ar Zoom am 10:30. (Ewch i dudalen Facebook Eglwys Bro Aled i gael mwy o fanylion.)
- **Oedfa ar y we**
Cynhelir oedfa ar YouTube am 10:30 yng nghwmni'r Parch. John Derek Rees. (Ewch i wefan Eglwys Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno.)

Llun – 10^{fed}

- **Merched Gyfarfu â Iesu â'u neges i ni heddiw** (ar ZOOM) am 7:00 yr hwyr. Y trydydd sesiwn mewn cyfres o saith astudiaeth o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC. (Manylion mewngofnodi: <https://us02web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071)

Sul – 16^{eg}

- **Ysgol Sul ar-lein**
Cynhelir Ysgol Sul ar Zoom am 10:30. (Ewch i dudalen Facebook Eglwys Bro Aled i gael mwy o fanylion.)
- **Oedfa ar y we**
Cynhelir oedfa ar YouTube am 10:30 yng nghwmni Dr Owain Edwards, Coleg y Bala. (Ewch i wefan Eglwys Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno.)

Sul – 23^{ain}

- **Oedfa deuluol (Llanefydd)** o dan ofal Rhodri ar y Cae Chwarae am 9:30.
- **Ysgol Sul ar-lein**
Cynhelir Ysgol Sul ar Zoom am 10:30. (Ewch i dudalen Facebook Eglwys Bro Aled i gael mwy o fanylion.)
- **Oedfa'r Fro** o dan arweiniad Rhodri yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan **am 6:00 yr hwyr**. Mae croeso i bawb ond bydd angen i chi gofrestru ymlaen llaw gan mai nifer cyfyngedig all fod yn bresennol ac er mwyn ein galluogi i lunio cynllun eistedd. **Cysylltwch â Mair erbyn nos Iau, Mai 20^{fed} i gofrestru**, os gwelwch yn dda. [Bydd angen i bawb gydymffurfio â chanllawiau COVID ac i ddilyn y canllawiau fydd mewn lle i sicrhau diogelwch pawb fydd yno. Ni ddylai unrhyw un fynychu'r addoliad sydd unai yn dioddef hefo'r feirws neu ag unrhyw un o'r symptomau, neu sydd i fod i ynysu ar adeg yr addoliad, a gofynnir yn garedig i'r holl fynychwyr ddod â mygydau a'u gwisgo tu allan a thu fewn i'r Capel, os gwelwch yn dda.]
- **Oedfa'r Fro yn FYW ar YouTube**. Os nad ydych yn gyfforddus i ddod i'r Capel (gweler uchod), bydd Oedfa'r Fro hefyd yn cael ei darlledu'n fyw ar YouTube **am 6:00 yr hwyr**. (Ewch i wefan Eglwys Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa'r Fro' ar y dudalen flaen i ymuno.)